

# PENDERFYNU AR YR ANGEN AM BROSIECT CYFLEUSTER

**Mae bod yn glir ynghylch y rhesymau dros, a'r angen am archwilio, prosiect cyfleuster yn hanfodol.**

Bydd deall y rhesymau dros eich prosiect yn eich helpu i gynllunio a pharatoi yn unol â hynny ac yn y pen draw gall eich helpu i gyflawni eich nodau.

Drwy ddarparu eglurder, byddwch mewn sefyllfa dda wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid allanol fel yr awdurdod lleol, partneriaid cyllido ac aelodau ehangach o'r gymuned leol.

Bydd cwmpasu'r prosiect yn eich helpu i gyflawni'ch nodau yn llwyddiannus gyda llwybr clir o sut rydych chi'n mynd i gyrraedd yno, pa gefnogaeth ac adnoddau sydd eu hangen ac amserlenni i helpu i nodi pryd bydd y prosiect yn cael ei gyflawni.

Dechreuwch drwy roi amser i adlewyrchu ar y cwestiynau yma. Cofiwch, dydych chi ddim ar eich pen eich hun felly ceisiwch gael safbwyntiau, syniadau a meddylliau pobl eraill. Drwy ymgysylltu ag eraill fel eich pwyllgor neu fwrdd gallwch greu prosiect llwyddiannus gyda'ch gilydd.



### Beth yw'r angen?

Beth yw'r broblem rydych chi'n ceisio'i datrys?  
Beth yw angen eich clwb yn y dyfodol?  
Oes angen yn y gymuned leol am y prosiect hwn?  
Oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r angen am y prosiect - adroddiadau awdurdodau lleol, data a gwybodaeth am dwf yn y clwb, gweledigaeth y gymunedol lleol?



### Beth yw'r amcanion?

Pa nodau ydych chi eisiau eu cyflawni?  
Beth yw'r canlyniad a ddymunir o'r prosiect?  
Sut byddai'r canlyniadau hyn yn cefnogi'r clwb a'r gymuned ehangach?  
Beth fydd yn cael ei wneud, pryd fydd yn cael ei wneud, beth fydd y gost?



### Pa adnoddau sydd eu hangen?

Pa arian, amser ac adnoddau sydd eu hangen?  
A yw'n glir pa adnoddau sy'n cael eu darparu gan ba bartner / rhanddeiliad allanol?  
Oes angen canfod / sicrhau adnoddau newydd?  
Ydi'r clwb wedi nodi unigolyn allweddol / wedi ffurfio gweithgor i gefnogi'r prosiect?



### Beth yw'r cerrig milltir allweddol?

Beth ydych chi eisiau ei gyflawni ac erbyn pryd - byddwch yn benodol?  
Ydi'r cerrig milltir yn realistig?  
Ydi'r cerrig milltir hyn yn cyd-fynd â'r rhanddeiliaid allanol rydych chi'n gweithio gyda / ochr yn ochr â hwy?



### Beth allai fod yn rhwystrau?

Ydi pob digwyddiad posibl wedi cael ei ystyried a chynlluniau wrth gefn wedi'u paratoi?  
Oes hyblygrwydd, os oes angen, gydag adnoddau e.e. arian, amser ac ati?  
Ydi pawb yn glir ynghylch y nodau, y canlyniad, y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau?  
Pa mor hyblyg yw cynllun y prosiect i ganiatáu ar gyfer unrhyw newidiadau / addasiadau?

